

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL  
(MEMORANDWM RHIF 2)**

**BIL DIOGELWCH AR-LEIN**

1. Mae'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn ("LCM") wedi'i osod o dan Reol Sefydlog ("SO") 29.2. Mae SO29 yn nodi bod rhaid gosod LCM, a gellir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben o fewn iddi, neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
2. Cyflwynwyd y Mesur Diogelwch Ar-lein ("y Mesur") yn Senedd y DU, Tŷ'r Cyffredin, ar 17 Mawrth 2022.
3. Gosododd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd yr LCM cyntaf ar 30 Mawrth, yn seiliedig ar y Bil fel y'i cyflwynwyd. Ers hynny mae ystyriaeth Senedd y DU o'r Mesur wedi cyrraedd y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin a ddechreuodd ar 12 Gorffennaf. Nid oes dyddiadau pellach ar gyfer Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin wedi'u cyhoeddi eto.
4. Oni nodir fel arall mae cyfeiriadau at gymalau yn yr LCM hwn yn cyfateb i'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin a'i gyhoeddi ar 28 Mehefin, sydd i'w weld yn: <https://bills.parliament.uk/bills/3137>.
5. Rwy'n gosod yr LCM hwn mewn perthynas â chymalau a oedd wedi'u cynnwys yn y Bil fel y'u cyflwynwyd, ond ni chawsant eu cynnwys fodd bynnag yn yr LCM cyntaf. Nodir mwy o fanylion ym mharagraffau 16-18 a pharagraffau 19 -23 isod.

**Amcan(ion) Polisi**

6. Amcan polisi datganedig Llywodraeth y DU yw sefydlu trefn reoleiddio newydd i fynd i'r afael â chynnwys anghyfreithlon a niweidiol ar-lein, gyda'r nod o atal niwed i unigolion, gan wneud y DU y lle mwyaf diogel yn y byd i fod ar-lein.
7. Ar hyn o bryd, nid yw'r rhan fwyaf o wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a chwilio sy'n gweithredu yn y Deyrnas Unedig yn ddarostyngedig i unrhyw reoleiddio sy'n ymwneud â diogelwch defnyddwyr. Mae'r Bil yn gosod gofynion cyfreithiol ar:
  - (a) Darparwyr gwasanaethau rhyngwryd sy'n caniatáu i ddefnyddwyr ddod ar draws cynnwys a gynhyrchir, wedi'i uwchlwytho neu ei rannu gan ddefnyddwyr eraill, h.y. cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr ("gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddwyr");

- (b) Darparwyr peiriannau chwilio sy'n galluogi defnyddwyr i chwilio gwefannau a chronfeydd data lluosog ("gwasanaethau chwilio");
  - (c) Darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd y cyhoeddir cynnwys pornograffig arnynt neu ei arddangos.
8. Mae'r Bil yn rhoi pwerau newydd i'r Swyddfa Gyfathrebu (OFCOM) sy'n eu galluogi i weithredu fel y rheoleiddiwr diogelwch ar-lein.

## **Crynodeb o'r Bil**

9. Noddir y Bil gan yr Adran Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS).
10. Mae'r Bil Diogelwch Ar-lein yn cyflwyno trefn reoleiddio newydd a fydd yn gosod gofynion cyfreithiol ar ddarparwyr gwasanaethau rhyngrwyd sy'n caniatáu i ddefnyddwyr ddod ar draws cynnwys a gynhyrchir, ei uwchlwytho neu ei rannu gan ddefnyddwyr eraill a pheiriannau chwilio sy'n galluogi defnyddwyr i chwilio sawl gwefan a chronfeydd data. Bydd gofyn i ddarparwyr gwasanaethau wedi'u rheoleiddio:
- (a) Asesu eu sylfaen defnyddwyr a risgiau niwed i'r defnyddwyr hynny sy'n bresennol ar y gwasanaeth;
  - (b) Cymryd camau i liniaru a rheoli risgiau niwed i unigolion sy'n deillio o gynnwys a gweithgarwch anghyfreithlon, ac (ar gyfer gwasanaethau sy'n debygol o gael eu cyrchu gan blant) cynnwys a gweithgarwch sy'n niweidiol i blant;
  - (c) Rhwng systemau a phrosesau ar waith sy'n caniatáu i ddefnyddwyr a phersonau yr effeithir arnynt roi gwybod am fathau penodedig o gynnwys a gweithgarwch i'r darparwr gwasanaeth;
  - (d) Sefydlu gweithdrefn gwynion dryloyw a hawdd ei defnyddio sy'n caniatáu gwneud cwynion o fathau penodedig;
  - (e) Rhoi sylw i bwysigrwydd diogelu hawliau cyfreithiol defnyddwyr i ryddid mynegiant a diogelu defnyddwyr rhag torri hawl gyfreithiol i breifatrwydd wrth weithredu polisïau a gweithdrefnau diogelwch;
  - (f) Rhoi systemau a phrosesau a gynlluniwyd ar waith i sicrhau bod cynnwys sy'n cam-fanteisio a cham-drin plant yn rhywiol (CSEA) yn cael ei adrodd i'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA).
11. Bydd gofynion cyfreithiol ychwanegol yn cael eu rhoi ar wasanaethau defnyddwyr i ddefnyddwyr sy'n bodloni amodau trothwy a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r rhain yn cynnwys nodi'n glir o ran telerau gwasanaeth sut y bydd cynnwys cyfreithiol ond niweidiol i oedolion yn cael ei drin ac asesu a chyhoeddi camau a gymerwyd i ddiogelu hawliau cyfreithiol defnyddwyr i ryddid mynegiant a phreifatrwydd defnyddwyr.

12. Bydd gwasanaethau chwilio sy'n bodloni amodau trothwy ychwanegol o dan ddyletswydd i gynhyrchu adroddiadau tryloywder blynyddol ac i roi systemau a phrosesau cymesur ar waith i atal y risg y bydd defnyddwyr yn dod ar draws hysbysebion twyllodrus.
13. OFCOM fydd yn gyfrifol am orfodi'r gofynion cyfreithiol a osodir ar ddarparwyr gwasanaethau. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i OFCOM gynhyrchu codau ymarfer ar gyfer darparwyr gwasanaethau, gan nodi'r camau yr argymhellir y gall darparwyr eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol. Ymhlith y pwerau newydd sy'n cael eu rhoi i OFCOM mae'r pŵer i roi hysbysiadau gorfodi ac i osod cosbau ariannol.
14. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau rhyngwyd sy'n sicrhau bod deunydd pornograffig ar gael drwy gyfrwng y gwasanaeth (yn hytrach na galluogi defnyddwyr i gynhyrchu neu rannu cynnwys o'r fath) i sicrhau nad yw plant fel arfer yn gallu dod ar draws y cynnwys pornograffig hwnnw.
15. O fewn y Bil, mae troseddau cyfathrebu presennol yn Neddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988 ac adrannau 127(1) a 127(2)(a)-(b) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn cael eu disodli gan dair trosedd gyfathrebu newydd: trosedd cyfathrebu niweidiol, trosedd cyfathrebu ffug a throsedd cyfathrebiadau bygythiol.

### **Diweddariad ar y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf**

16. Gosododd y Dirprwy Weinidog dros Newid Hinsawdd LCM ar 30 Mawrth, yn seiliedig ar y Bil fel y'i cyflwynwyd i Senedd y DU ar 17 Mawrth.
17. Cadarnhaodd yr LCM fod y Dirprwy Weinidog yn fodlon gosod LCM mewn perthynas â Chymal 175(5) (cymal 178(5)erbyn hyn), yn ogystal â pharagraff 10 a Rhan 2 o Atodlen 1 i'r Bil i'r graddau y mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud â Chymru.
18. Ers hynny mae swyddogion Llywodraeth y DU wedi rhoi gwybod i'm swyddogion, yn dilyn trafodaethau pellach, ystyrir bellach y gallai fod angen LCM ar rai darpariaethau o fewn Rhan 10 o'r Bil – Troseddau Cyfathrebu, a oedd wedi'u cynnwys yn y Bil wrth ei gyflwyno.
19. Ar ôl ein dadansoddiad dilynol ein hunain o oblygiadau'r darpariaethau hyn ar gyfer Cymru, rwyf o'r farn bod yn ofynnol gosod yr LCM hon gerbron y Senedd, am y rhesymau a nodir ym mharagraffau 21 i 29 isod.

## **Darpariaethau ychwanegol yn y Bil y mae angen caniatâd ar eu cyfer**

20. Mae angen caniatâd y Senedd am y ddarpariaeth ganlynol sydd wedi ei gynnwys o fewn y Bil:

*Cymalau 151–154 a 156 – Troseddau Cyfathrebu (Cymalau 150-152 a 155 yn y Bil fel y'i cyflwynwyd)*

21. Mae cymalau 151–153 yn creu troseddau ar gyfer anfon cyfathrebiadau niweidiol, ffug neu fygythiol. Mae'r troseddau hyn yn berthnasol lle; mae person yn anfon, trosglwyddo neu gyhoeddi cyfathrebiad (gan gynnwys cyfathrebu llafar) trwy ddulliau electronig, neu'n anfon llythyr neu beth o unrhyw ddisgrifiad arall, ac y bodlonir yr amodau perthnasol ar gyfer pob trosedd sy'n ymwneud â bwriad a gwybodaeth.
22. Mae Cymal 151 yn creu trosedd ar gyfer anfon cyfathrebiadau niweidiol. Mae unrhyw berson sydd, gyda'r bwriadu o achosi gofid difrifol o leiaf a heb esgus rhesymol, yn anfon neges (neu'n achosi iddi gael ei hanfon) sy'n cyflwyno risg real a sylweddol o achosi gofid difrifol o leiaf i'r rhai sy'n debygol o ddod ar ei draws, yn euog o'r drosedd.
23. Mae Cymal 152 yn creu trosedd ar gyfer anfon cyfathrebiadau ffug. Mae person sydd, heb esgus rhesymol, yn anfon neges yn cyfleu gwybodaeth y mae'r person yn gwybod ei fod yn ffug, ac wrth anfon y neges yn bwriadu achosi niwed seicolegol neu gorfforol sy'n fwy na dibwys i'r rhai sy'n debygol o ddod ar draws y neges, yn euog o drosedd.
24. Mae Cymal 153 yn creu trosedd ar gyfer anfon cyfathrebiadau bygythiol. Mae person sy'n anfon neges yn cyfleu bygythiad o anaf difrifol, treisio, ymosod trwy dreiddio, neu golled ariannol ddifrifol, gyda'r bwriad y bydd y rhai sy'n dod ar draws y neges yn ofni y bydd y bygythiad yn cael ei gyflawni (neu'n ddi-hid o ran y ffaith honno), yn euog o drosedd.
25. Nid yw'r troseddau wedi'u cyfyngu i'r rhyngwrwyd na'r amgylchedd ar-lein – maent hefyd yn cynnwys llythyrau (cymal 154(3)). Mae person sy'n cyflawni trosedd o dan gymalau 151 i 153 yn atebol i euogfarn ddiannod i garchar am gyfnod nad yw'n uwch na'r term cryno uchaf ar gyfer troseddau naill ffordd neu ddirwy (neu'r ddau); neu ar euogfarn ar dditiad, i garchar am gyfnod nad yw'n hwy na dwy flynedd neu ddirwy (neu'r ddau).
26. Ni ellir cyflawni'r drosedd gyfathrebu niweidiol a'r drosedd gyfathrebu ffug gan gyrff penodol (fel y'i diffinnir yn yr is-adranau perthnasol), neu mewn cysylltiad â dangos ffilm i aelodau'r cyhoedd a wnaed ar gyfer sinema.
27. Mae Cymal 154 yn cynnwys darpariaeth ddehongli ac mae is-adran (2)(b) yn egluro, at ddibenion y troseddau uchod, bod person yn anfon neu'n achosi

anfon neges os yw'r person yn anfon/achosi i lythyr neu beth o unrhyw ddisgrifiad arall gael ei anfon.

28. Mae Cymal 156 yn ymwneud ag atebolrwydd swyddogion corfforaethol.

29. Er bod gwasanaethau rhyngrwyd, gwasanaethau post, a thelegyfathrebu wedi eu cadw, lle mae'r troseddau hyn yn berthnasol i fathau eraill o gyfathrebu, mae gan y Senedd gymhwysedd i ddeddfu. Felly, mae angen caniatâd ar gyfer cymalau 151 – 154 a 156.

### **Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am ganiatâd**

30. Barn Llywodraeth y DU yw bod y darpariaethau hyn yn ymgysylltu â'r broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol.

### **Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil Diogelwch Ar-lein**

31. Mae'r darpariaethau o fewn y Bil, sy'n gosod dyletswyddau ar ddarparwyr gwasanaethau rhyngrwyd mewn perthynas â diogelwch ar-lein ac yn rhoi pwerau a gosod dyletswyddau ar OFCOM, yn ymwneud â'r mater a gadwyd yn ôl o "wasanaethau rhyngrwyd".

32. Mae diogelwch a lles pobl yn gyfrifoldeb sy'n cael ei rannu ac yn ddyletswydd sy'n syrthio i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Rydym yn cydnabod mai Bil ar gyfer y DU gyfan yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf effeithiol a chymesur i sicrhau rheoleiddio cyson ar ddarparwyr y rhyngrwyd a fydd yn diogelu pobl Cymru.

33. Rwy'n croesawu bwriad Llywodraeth y DU yn y Mesur Diogelwch Ar-lein i wneud y DU y lle mwyaf diogel yn y byd i fod ar-lein gan hefyd sicrhau bod pobl yn gallu mwynhau eu hawl i ryddid mynegiant. Rwy'n falch bod y Bil yn cydnabod yr angen am amddiffyniad gwell i blant a phobl ifanc rhag cynnwys niweidiol ar-lein. Rwy'n credu'n gryf bod diogelu yn gyfrifoldeb ar y cyd ac yn croesawu'r dyletswyddau a roddir ar ddarparwyr ar-lein i weithredu i ddileu cynnwys niweidiol a chryfhau amddiffyniad rhag gweithgareddau sy'n bygwth diogelwch plant a phobl ifanc.

34. Gan fod hwn yn Fil cymhleth, mae'n debygol y bydd gwelliannau'n cael eu cyflwyno wrth iddo barhau â'i daith drwy'r Senedd. Bydd fy swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i fonitro unrhyw welliannau arfaethedig.

## **Goblygiadau ariannol**

35. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Gymru mewn perthynas â Bil Diogelwch Ar-lein Llywodraeth y DU.

## **Casgliad**

36. Fy marn i yw ei bod yn briodol gosod LCM mewn perthynas â chymalau 151–154 a 156 – Troseddau Cyfathrebu am y rhesymau a ddarperir ym mharagraffau 31 i 34 uchod. Felly rwy'n argymhell bod y Senedd yn cefnogi'r cynigion ac yn rhoi ei ganiatâd.

**Vaughan Gething AS**  
**Gweinidog yr Economi**  
**28 Medi 2022**